# ADRODDIAD Y PWYLLGOR MATERION CYFANSODDIADOL A DEDDFWRIAETHOL, "YMCHWILIAD I ANGHYMHWYSO PERSON RHAG BOD YN AELOD O GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU" ( cyhoeddwyd Gorffennaf 2014)

## YMATEB LLYWODRAETH CYMRU

### Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn arbennig o ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr Adroddiad hwn. Cynhaliwyd yr ymchwiliad ar gais y Llywodraeth (gweithdrefn cymharol unigryw), sydd wedi arwain at adroddiad hynod o ddefnyddiol sydd wedi ysgogi syniadau newydd ar ein rhan ni ynghylch y mater anodd, ond hanfodol bwysig hwn. Nid yw'r ffaith nad ydym wedi gallu cytuno â phob argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor, fel y gwelwch isod, yn amharu mewn unrhyw ffordd ar werth yr adroddiad, o safbwynt y Llywodraeth ac o safbwynt y Pwyllgor hefyd yn ein barn ni.

2. Cefndir yr ymchwiliad, fel y mae llythyr y Prif Weinidog i'r Llywydd ym mis Ionawr (sydd i'w weld yn Atodiad 1 yr Adroddiad) yn ei egluro, yw awydd i osgoi yn 2016 yr hyn a ddigwyddodd yn 2011: etholwyd dau unigolyn yn Aelodau Cynulliad a oedd, fel y gwelwyd yn ddiweddarach, mewn swyddi a oedd, o dan y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a oedd mewn grym ar y pryd, yn anghyson â chymryd cyfrifoldebau'r Cynulliad. Fel y digwyddodd pethau, daeth un ohonynt yn Aelod, ond ni wnaeth y llall; ond ym marn Llywodraeth Cymru niweidiwyd enw da y Cynulliad oherwydd, yn dilyn yr etholiad, y bu'n rhaid ymdrin â mater nad oedd er budd gorau'r etholwyr. Mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi sefyllfa o'r fath yn 2016.

### Yr Adroddiad: Rhai Sylwadau Cyffredinol

3. Fel y nodir uchod, mae adroddiad y Pwyllgor wedi rhoi cyfle i'r Llywodraeth feddwl o'r newydd am ein ffordd gyffredinol o ymdrin â'r materion, a gallai fod yn ddefnyddiol gwneud rhai sylwadau cyffredinol cyn ymateb i'r argymhellion unigol.

   (i) Materion yn Ymdoddi'n Un?

4. Yn gyntaf, rydym yn credu mai gwraidd llawer o'r anawsterau ynghylch anghymhwyso yw bod y brif ddeddfwriaeth, sef adrannau 16-19 Deddf Llywodraeth Cymru, yn cyfuno dau fater y dylid eu cadw ar wahân. Y mater cyntaf yw hal unigolyn i fod yn ymgeisydd mewn etholiadau cyhoeddus: yn unol â deddfeg Llys Hawliau Dynol Ewrop o dan Erthygl 3 o Brotocol 1 y Confensiwn, dylai hyn fod ar gael yn gyffredinol i ddinasyddion sy'n oedolion, a dim ond mewn amgylchiadau cymharol gyfyngedig y bydd y gyfraith yn rhwystro hawl o'r fath i fod yn ymgeisydd. Yr ail fater yw gwrthdaro buddiannau: mae'n briodol i'r

Cynulliad a'r etholwyr ddisgwyl y gall unrhyw berson a etholir i'r Cynulliad gyflawni ei ddyletswyddau ef neu hi heb ofn na rhagfarn, a heb rwystr o fod mewn dwy swydd ar yr un pryd a allai arwain at ganfyddiad bod cyfyngiad amhriodol ar gyfraniad unigolyn at waith y Cynulliad.

5. Mae adran 16(1)(a) Deddf Llywodraeth Cymru yn nodi pum math o berson sydd wedi'u anghymwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad: barnwyr, gweision sifil, aelodau o'r lluoedd arfog, aelodau o'r heddlu, ac aelodau o ddeddfwrfeydd tramor. Mae adran 16(1)(c) a (d) yn yr un modd yn anghymhwyso Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae adran 16(4) yn anghymhwyso unrhyw un sydd yn arglwydd raglaw, rhaglaw neu uchel siryf dros ran o Gymru lle mae ei etholaeth neu ranbarth etholiadol yn cwmpasu neu'n cynnwys yr ardal y mae'n ei gwasanaethu.

6. Ym marn y Llywodraeth, yr amcan yma yw atal deiliaid swyddi o'r fath rhag ymwneud ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol cyhoeddus (gan gynnwys bod yn ymgeisydd etholiadol), oherwydd bod angen iddynt ddangos didueddrwydd gwleidyddol bob amser wrth gyflawni eu cyfrifoldebau presennol. Gellir profi'r mater fel hyn: os byddai person sy'n dod o dan unrhyw un o'r anghymwysiadau hyn yn cyflwyno'i hun fel ymgeisydd, yna'n cymryd rhan yn y ddadl gyhoeddus/wleidyddol, ond yn aflwyddiannus yn yr etholiad, a allai ef neu hi ddisgwyl o fewn rheswm, ac a fyddai'r cyhoedd yn disgwyl iddo ef neu hi, allu dychwelyd i'w swydd neu gyflogaeth wreiddiol, waeth pa safbwyntiau a fynegwyd ar faterion o ddadl wleidyddol yn ystod yr ymgyrch etholiadol? Ni fyddai hyn yn dderbyniol ym marn y Llywodraeth, felly dylai'r polisi anghymhwyso unigolion sydd mewn unrhyw un o'r categorïau hyn rhag sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau'r Cynulliad (oni bai eu bod yn ymddiswyddo'n barhaol ymlaen llaw o'r swydd neu'r gyflogaeth sy'n eu hanghymhwyso, heb y posibilrwydd o ddychwelyd/ailbenodi); maent yn y categori bach o bobl y mae'n rhaid torri ar eu hawl i fod yn ymgeisydd er budd ystyriaethau polisi cyhoeddus ehangach.

7. Mae modd cyferbynnu'r sefyllfa hon â'r sefyllfa o wrthdaro buddiannau. Rydym yn credu y dylid gosod polisi yma y dylai unigolion sydd mewn swyddi lle, os byddant yn cael eu hethol, y gellid credu bod y swyddi hyn yn amharu ar eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn y Cynulliad, allu dychwelyd yn syth wedi'r etholiad i ymddiswyddo: mewn geiriau eraill, ac yn unol â deddfeg y Confensiwn, ni ddylai fod rhwystr ar eu hawl i fod yn ymgeisydd, ond os cânt eu hethol, dylent gael gwasanaethu fel Aelodau Cynulliad dim ond os gwaredir unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

8. Nid yw darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru, yn arbennig y pwerau i wneud gorchmynion sydd ar gael i'r Cynulliad o dan y Ddeddf, yn adlewyrchu'r sefyllfa, ac maent yn gosod yr un gosb o anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad (yn wahanol i anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd) ar unigolion sydd yn y naill

gategori. Nid yw'n debygol y bydd modd gwneud gwelliannau i'r darpariaethau hyn cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016, ond bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn gyda Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o wneud gwelliannau yn y Senedd nesaf.

(ii) Staff Cyrff Cyhoeddus

9. Grŵp arall o unigolion sydd wedi wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad drwy rinwedd adran 16(1)(e) Deddf Llywodraeth Cymru yw'r rheini sydd wedi'u cyflogi fel aelodau o staff y Cynulliad ei hun. Mae hyn yn codi mater penodol, ond hefyd mater mwy cyffredinol. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 (OS 2010/2969), a oedd mewn grym ar gyfer etholiadau'r Cynulliad 2011, yn nodi nifer fawr o swyddi sy'n anghymhwyso, ond mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn) mae hefyd yn nodi y dylid anghymhwyso aelodau staff sy'n cefnogi deiliaid y swyddi hynny.

10. Gan ddechrau o'r safbwynt y dylai unigolion gael cynnig eu hunain am swydd gyhoeddus etholedig ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, nid yw'n amlwg o gwbl pam y dylid anghymhwyso staff rhai cyrff cyhoeddus (ond nid pob un) yn y fath fodd. Mae Llywodraeth Cymru yn dueddol o feddwl, ac eithrio staff Comisiwn y Cynulliad o bosibl fel y nodir uchod, na ddylai Gorchymyn Anghymhwyso nesaf y Cynulliad anghymhwyso staff unrhyw gorff cyhoeddus. Yn hytrach, dylai fod yn gyfrifoldeb i'r corff cyhoeddus dan sylw ymdrin ag unrhyw sefyllfa sy'n codi os bydd aelod o staff yn sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau'r Cynulliad. (A gellir tybio y byddai unrhyw ymgeisydd llwyddiannus o'r fath yn ymddiswyddo ar ôl cael ei ethol yn Aelod Cynulliad oherwydd y byddai parhau i weithio i'r corff cyhoeddus wrth gyflawni cyfrifoldebau'r Cynulliad yn rhoi pwysau amhosibl ar yr unigolyn).

Tryloywder

11. Fel cefndir i'r anawsterau a nodir ym mharagraff 2 uchod mewn perthynas â 2011, roedd dryswch ynghylch yr union swyddi i'w anghymhwyso at ddibenion etholiadau 2011. Fodd bynnag, ni fydd creu a rhoi cyhoeddusrwydd effeithiol i Orchymyn Anghymhwyso newydd yn mynd i'r afael yn llawn â'r broblem hon. Mae'r rhestr o swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso yn deillio o nifer o ffynonellau (Deddf Llywodraeth Cymru, y Gorchymyn Anghymwyso oedd mewn grym ar y pryd, ac unrhyw ddarpariaethau perthnasol a wnaed drwy ddeddfwriaeth bresennol y Cynulliad), ac ymddengys bod ailadrodd mewn rhai achosion; fel y nodwyd yn flaenorol, mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn anghymhwyso'r unigolyn rhag bod yn Aelod Cynulliad drwy rinwedd Deddf Llywodraeth Cymru adran 16(1)(c), ond mae Gorchymyn Anghymhwyso 2010 hefyd yn benodol yn anghymhwyso Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff.

12. O ystyried bod y darpariaethau anghymhwyso yn deillio o amryw ffynonellau, gallai fod yn anodd iawn i unrhyw ymgeisydd posibl fod yn siŵr nad yw ef neu hi wedi torri unrhyw waharddiadau drwy gamgymeriad. Hefyd, er mwyn datblygu Gorchymyn Anghymwyso drafft newydd yn 2015, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio yn ôl y gofyn gyda'r Comisiwn Etholiadol, yn bwriadu llunio rhestr gynhwysfawr ac anstatudol o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso rydym yn ymwybodol ohonynt, o ba bynnag ffynhonnell, a'i chyhoeddi i'r pleidiau a darpar ymgeiswyr.

Comisiwn y Gyfraith

13. Yn olaf, rydym yn crybwyll mater sy'n llai arwyddocaol yn y cyd-destun presennol, ond sydd o bwysigrwydd ehangach. Mae dau o argymhellion y Pwyllgor yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ymchwilio ac adrodd ar ddau fater. Mae Llywodraeth Cymru yr un mor frwdfrydig â'r Pwyllgor ynghylch gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith (ac mae'n croesawu'r ddarpariaeth ym Mil Cymru presennol a fydd yn gwneud hyn yn haws), ond mae angen i ni gofio bod gan y Comisiwn adnoddau cyfyngedig, ac nad yw ei wasanaethau am ddim; yn aml bydd angen i Lywodraeth Cymru ariannu unrhyw waith y bydd gofyn i'r Comisiwn ei wneud yn benodol. Rydym yn gobeithio felly y bydd argymhellion y Pwyllgor ynghylch cyfeirio materion at y Comisiwn yn gynnil ac yn strategol. Yn yr achos presennol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â’r materion sy'n codi yn yr argymhellion penodol mewn ffordd wahanol i'r hyn y mae'r Pwyllgor yn ei gynnig.

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor**

***Argymhelliad 1.*** *rydym yn argymell y dylai'r egwyddorion canlynol, neu egwyddorion tebyg iddynt, gael eu defnyddio i benderfynu pwy ddylai gael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru:*

> *Egwyddor 1: Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod Cynulliad yn hollbwysig.*
>
> *Egwyddor 2: Dylai anghymwyso person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei gyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.*
>
> *Egwyddor 3: Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol yng nghyswllt rhai dinasyddion er mwyn:*
> - *i. amddiffyn annibyniaeth y broses etholiadol;*
> - *ii. atal gwrthdaro rhag codi rhwng buddiannau pan gaiff unigolyn ei ethol; a*
> - *iii. amddiffyn rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol.*
>
> *Egwyddor 4: Dylai gorchymyn anghymhwyso fod yn berthnasol i'r dinasyddion canlynol:*
> - *i. y rheini y mae eu rôl yn gofyn iddynt fod yn gwbl ddiduedd, gan gynnwys y rheini y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;*
> - *ii. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus lle derbynnir budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;*
> - *iii. y rheini sydd mewn swydd gyhoeddus ac yn darparu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y rôl honno;*
> - *iv. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus y mae'r Cynulliad yn craffu arni.*
>
> *Egwyddor 5: Os oes rhaid anghymhwyso, rhaid iddynt fod:*
> - *i. yn gyson â'r egwyddorion hyn;*
> - *ii. yn glir ac yn ddiamwys;*
> - *iii. yn gymesur.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

14. Mae'r argymhelliad hwn yn weddol gyson â'r dull gweithredu i ni ei amlinellu ym mharagraffau 4-8 uchod o ran cydnabod, er y dylid annog y rhan fwyaf o ddinasyddion i sefyll mewn etholiadau, na ddylid caniatáu i grŵp cyfyngedig o bobl fod yn ymgeiswyr oherwydd eu swyddi neu eu cyflogaeth bresennol. Fodd bynnag, mae'n ddealladwy o ystyried y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol bod y Pwyllgor yn mynegi hyn fel anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad; ar ôl 2016 byddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld y polisi'n cael ei gyflwyno ar gyfer llawer o'r rheini a enwir yn yr argymhelliad hwn drwy eu hanghymhwyso rhag bod yn ymgeiswyr.

***Argymhelliad 2.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth berthnasol i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn i'r broses anghymhwyso o swydd gyhoeddus benodol ddod i rym adeg tyngu'r llw teyrngarwch neu gymryd y cadarnhad o deyrngarwch fel Aelod Cynulliad. Ni ddylai'r newid hwn fod yn berthnasol i nifer bach iawn o swyddi - fel y nodir yn adran 16 o Ddeddf 2006 neu drwy orchymyn - lle y byddai bod yn ymgeisydd, er enghraifft, yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau neu ymddangos fel petai'n tanseilio didueddrwydd.*

**Ymateb:**

15. **Mater i Lywodraeth y DU yw hwn,** ond fel y nodir ym mharagraff 8 uchod, bydd Llywodraeth Cymru eisiau trafod hyn gyda'r Llywodraeth honno yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2015.

***Argymhelliad 3.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth briodol i gael gwared â'r darpariaethau perthnasol yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr, wrth dderbyn enwebiad, ddatgan nad ydynt, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, yn dal swydd sy'n eu hanghymhwyso.*

**Ymateb:**

16. **Mater i Lywodraeth y DU yw hwn,** ond bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio trafod y materion gyda'r Llywodraeth honno cyn gwneud y Gorchymyn cyfatebol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad 2016.

***Argymhelliad 4.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ymchwilio i'r opsiynau deddfwriaethol amrywiol ar gyfer cyflwyno argymhelliad dau, ac adrodd arnynt, ac i wneud argymhelliad ar ba un, yn ei farn ef, fyddai'r un mwyaf priodol, o bosibl fel rhan o adolygiad ehangach o'r mater hwn ar draws holl ddeddfwrfeydd y DU.*

**Ymateb: Gwrthod**

17. O ystyried ein dull gweithredu cyffredinol o ran atgyfeiriadau Comisiwn y Gyfraith ym mharagraff 13 uchod, nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i darbwyllo y byddai atgyfeiriad ar y mater hwn yn briodol.

18. Fodd bynnag, mae adroddiad y Pwyllgor wedi codi proffil y mater hwn a'i roi ar yr agenda wleidyddol, ac rydym yn credu y dylai fod modd datblygu gwelliannau heb atgyfeirio at Gomisiwn y Gyfraith. Roedd gwelliant i Fil Cymru a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Thomas o Gresffordd ar 9 Hydref yn cynnig y dylai adran 16 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gael ei diwygio fel nad yw swyddi sy'n anghymhwyso oherwydd eu bod wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso yn y Cyfrin Gyngor yn anghymhwyso unigolion rhag sefyll, a bod cyfnod gras o 8 niwrnod yn dilyn etholiad iddynt ymddiswyddo o'r swydd sy'n anghymwyso. Trafodwyd y gwelliant hwn yn ystod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 13 Hydref. Roedd y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, yn

gefnogol o ddiben gwelliant yr Arglwydd Thomas, ac aeth ati i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y materion hyn. Cytunodd mai dim ond y swyddi hynny lle ceir achos cryf dros eu cynnwys ddylai gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymwyso nesaf.

19. Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw arwain ar y Gorchymyn Anghymwyso o dan adran 16, ac mai cyfrifoldeb Swyddfa Cymru yw arwain ar unrhyw orchymyn Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch y ffordd y cynhelir etholiadau'r Cynulliad, rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn i gydweithio. Byddwn yn ceisio newidiadau deddfwriaethol cyn etholiadau'r Cynulliad 2021, gyda'r bwriad o ddilyn y dull gweithredu a amlinellir yn argymhelliad 2. Ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, byddwn yn datblygu Gorchymyn Anghymhwyso drafft i ymgynghori arno yn y Flwyddyn Newydd, a hynny ar sail y dull gweithredu rydym wedi'i amlinellu yn ein hymateb i argymhellion 12 ac 13 isod.

***Argymhelliad 5.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn diwygio adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau bod unrhyw anghymwysiadau ynddi yn cael eu nodi'n llawn yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall a bod yr holl anghymwysiadau a bennir ynddi yn dod yn weithredol adeg enwebu.*

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

20. O ystyried y cyfeiriad at enwebu, rydym yn cymryd mai ystyr yr argymhelliad hwn yw y dylid diwygio adran 16 i ganolbwyntio ar anghymhwyso nifer fechan o ddeiliaid swyddi unigol ac aelodau o grwpiau cyfyngedig rhag bod yn ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad. Ar sail hynny, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad a bydd yn trafod y mater gyda Llywodraeth y DU (ond rydym yn meddwl ei bod yn debygol y byddai angen dirymu ac adnewyddu adran 16 yn hytrach na'i diwygio er mwyn sicrhau'r canlyniad a ddymunir). Fodd bynnag, yn ymarferol rwy'n amau y byddai modd i ddarpariaeth gwbl newydd sefyll ar ei phen ei hun hyd yn oed, ac rydym yn rhagweld cymryd pwerau gwneud gorchmynion er mwyn i ni allu cadw'r rhestr o'r rheini y dylid eu gwahardd rhag bod yn ymgeiswyr yn gyfoes.

***Argymhelliad 6.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn diwygio adran 16(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i dynnu'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn gallu'u cynnwys mewn gorchymyn anghymhwyso priodol gyda swyddi eraill.*

**Ymateb**:

21. **Mater i Lywodraeth y DU yw hwn**, ond barn gychwynnol Llywodraeth Cymru yw, os cytunir gosod darpariaeth yn lle adran 16 Deddf Llywodraeth Cymru fel y disgrifir yn ein hymateb i argymhelliad 5, y dylai'r ddarpariaeth honno enwi'r ddwy swydd hon, ymysg eraill, fel rhai sy'n anghymhwyso'r deiliaid rhag bod yn

ymgeiswyr (yn ogystal â chynnig pwerau gwneud gorchmynion er mwyn i ni allu cadw'r rhestr o'r rheini y dylid eu gwahardd rhag bod yn ymgeiswyr yn gyfoes).

***Argymhelliad 7.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn diwygio adran 16(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y dylai person sy'n dal swydd arglwydd raglaw, rhaglaw neu uchel siryf gael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad.*

**Ymateb:**

**22. Mater i Lywodraeth y DU yw hwn** ond byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwelliant i wahardd deiliaid y swyddi hyn rhag sefyll mewn etholiadau (a gellid enw'r swyddi ochr yn ochr â chyfeiriadau at yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus mewn fersiwn newydd o adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ein hymateb i argymhelliad 7).

***Argymhelliad 8.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, wrth ofyn i Gomisiwn y Gyfraith gynnal ymchwiliad ac adrodd ar y gwaith yn unol ag argymhelliad pedwar, yn cynnwys gofyniad hefyd i roi cyngor ar oblygiadau cadw, disodli neu dynnu adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*

**Ymateb: Gwrthod**

23. Rydym wedi amlinellu ein ffordd gyffredinol o ymdrin ag atgyfeiriadau Comisiwn y Gyfraith ym mharagraff 13 uchod, ond mae gennym bryderon arbennig am adran 17(3) ac nid ydym wedi'n darbwyllo y dylai barhau i fod yn rhan o gynllun statudol diwygiedig ynghylch anghymhwyso. Mae'r is-adran yn caniatáu i'r Cynulliad i bob pwrpas hepgor toriad ar y rheolau anghymhwyso os yw'r sail dros anghymhwyso wedi'i dynnu a'i bod yn briodol datrys fel hyn. Nid yw'n glir i Lywodraeth Cymru pam y dylai'r Cynulliad gael pŵer o'r fath yn y dyfodol os, fel y cynigir yn argymhelliad 2, y gall ymgeisydd llwyddiannus ymddiswyddo ar unwaith ar ôl etholiad o swydd sy'n anghymhwyso ac yna cymryd cyfrifoldebau'r Cynulliad. Ar ben hyn, mewn gwirionedd mae'n debygol iawn bod ystyriaethau pleidiau gwleidyddol yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cynulliad yn arfer y pŵer hwn, ac mae posibilrwydd y bydd niwed i enw da'r Cynulliad os yr ymddengys y bydd amgylchiadau o'r fath yn amharu ar ddewisiadau'r etholwyr. Mae Llywodraeth Cymru felly'n dod i'r casgliad nad yw'n ddymunol i'r Cynulliad feddu ar y pŵer yn adran 17(3), ac na ddylai fod ei angen waeth hynny os bydd argymhelliad 2 yn cael ei roi ar waith.

***Argymhelliad 9.*** *rydym yn argymell y dylai unrhyw newid deddfwriaethol yn y dyfodol i adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gael ei roi ar waith dim ond ar ôl ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael ei gydsyniad.*

**Ymateb: Derbyn.**

24. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai newidiadau o'r gyfundrefn anghymhwyso bresennol, gan gynnwys mewn perthynas ag adran 17(3), yn

destun ymgynghori, ac y byddai angen cydsyniad y Cynulliad drwy gynnig cydsyniad deddfwriaethol.

***Argymhelliad 10.*** *rydym yn argymell y dylai'r gorchymyn ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2016 bennu dau gategori o bobl a ddylai gael eu hanghymhwyso:*

*Categori 1: y rheini a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag cael eu henwebu oherwydd natur eu rôl.*

*Categori 2: y rheini a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag cael eu hethol yn ffurfiol yn Aelod Cynulliad.*

***Argymhelliad 11.*** *rydym yn argymell y dylai'r gorchymyn ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2021 bennu dau gategori o bobl a ddylai gael eu hanghymhwyso:*

*Categori 1: y rheini a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag cael eu henwebu oherwydd natur eu rôl.*

*Categori 2: y rheini a ddylai gael eu hanghymhwyso ar ôl cael eu hethol ond dim ond rhag cymryd y llw teyrngarwch neu rhag cadarnhau eu teyrngarwch.*

**Ymateb: Gwrthod.**

25. Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ddeall y syniadaeth y tu ôl i argymhellion 10 ac 11, ond fel y nodir ym mharagraff 8 uchod, nid yw'r pwerau gwneud gorchmynion sydd gennym ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth pwysig a wneir gan y Pwyllgor, ac ni fydd modd bwrw ymlaen ar gyfer etholiadau'r Cynulliad 2016 fel y mae'r Pwyllgor yn ei gynnig. Fodd bynnag, byddai'r pwerau gwneud gorchmynion yr hoffai Llywodraeth Cymru eu cymryd mewn cyfundrefn statudol ddiwygiedig ar gyfer anghymhwyso yn ein galluogi i fwrw ymlaen yn y ffordd y cynigir ar gyfer 2021 a thu hwnt.

***Argymhelliad 12.*** *rydym yn argymell y dylai gorchymyn a fydd yn cael ei ddrafftio ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2016 i anghymhwyso personau rhag cael eu henwebu fel Aelod Cynulliad gynnwys y canlynol (ond heb o anghenraid gael ei gyfyngu iddynt):*

*Archwilydd Cyffredinol Cymru*
*Comisiynydd Plant Cymru*
*Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil*
*Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*
*Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru*
*Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus*
*Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol*
*Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*
*Comisiynydd Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru*
*Aelodau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol*
*Aelodau a Staff y Comisiwn Etholiadol Comisiwn Seneddol dros Weinyddu*

*Swyddogion Canlyniadau a staff awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol*
*Dirprwyon statudol y bobl ar y rhestr hon*
*Comisiynydd y Gymraeg*

**Ymateb: Gwrthod**.

26. Nid yw'n pwerau gwneud gorchmynion presennol yn caniatáu i ni anghymhwyso personau rhag cael eu henwebu ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, dim ond anghymhwyso personau rhag bod yn Aelodau Cynulliad (ond fel rydym yn ei esbonio uchod, yn y dyfodol byddwn eisiau cymryd pwerau gwneud gorchmynion er mwyn gwahardd ystod gyfyngedig o ddeiliaid swyddi unigol ac aelodau o grwpiau cyfyngedig rhag bod yn ymgeiswyr).

27. Ar gyfer etholiadau'r Cynulliad 2016, i'r perwyl nad yw'r personau a restrir uchod eisoes wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelodau drwy rinwedd adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, byddwn yn ymgynghori ar anghymhwyso'r personau hyn rhag bod yn aelodau drwy'r Gorchymyn Anghymhwyso rydym yn bwriadu ei gymryd ymlaen o dan y pwerau gwneud gorchmynion presennol. Yn ymarferol wrth gwrs, os yw'r personau hyn yn cael eu cynnwys yn ein Gorchymyn Anghymhwyso, byddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo wedi iddynt gael eu henwebu'n ymgeiswyr, gan gymryd bod Gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelodau.

***Argymhelliad 13.*** *rydym yn argymell y dylid drafftio gorchymyn ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2016 sy'n anghymhwyso'r personau canlynol pan gânt eu hethol yn ffurfiol yn Aelod Cynulliad:*

*Aelodau tribiwnlysoedd barnwrol*
*Pobl a benodir gan Weinidogion Cymru*
*Staff awdurdodau lleol nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghategori un*
*Staff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yr Heddlu, Tân ac Achub*
*Staff sefydliadau y cyfeirir atynt yng nghategori un*
*Staff Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru*

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

28. Rydym yn cytuno y byddai fel arfer yn briodol anghymhwyso “Pobl a benodir gan Weinidogion Cymru”, ond bydd angen ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, gan ystyried yn ofalus yr iaith statudol a ddefnyddir i roi hyn ar waith. Yn yr un modd, rydym yn cytuno y dylid anghymhwyso Aelodau tribiwnlysoedd barnwrol. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 9 a 10 uchod, nid ydym wedi'n darbwyllo ar hyn o bryd y byddai'n briodol anghymwyso'r nifer

fawr o staff gwasanaethau cyhoeddus a nodir yn argymhelliad 13 rhag bod yn Aelodau Cynulliad. Mae hyn yn arbennig o wir o dan ein pwerau gwneud gorchmynion presennol, lle na allwn nodi pryd bydd yr anghymhwysiad yn dod i rym. Fodd bynnag, credwn na fydd angen anghymhwyso nifer fawr o staff gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn os oes modd darparu y bydd yr anghymhwysiad yn berthnasol dim ond os cânt eu hethol yn Aelodau Cynulliad. Mae hyn oherwydd y gallwn gymryd na fyddent yn gallu parhau i fod yn aelod o staff corff cyhoeddus a chyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelod Cynulliad ar yr un pryd.

***Argymhelliad 14.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth baratoi gorchymyn anghymhwyso ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2016, yn ymgynghori'n eang ar ei gynnwys, gan gynnwys yn arbennig, yr holl sefydliadau a gwmpesir gan y gorchymyn.*

**Ymateb: Derbyn. Ein bwriad yw cychwyn ymgynghori ar Orchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor ddechrau 2015.**

***Argymhelliad 15.*** *rydym yn argymell bod y gorchymyn anghymhwyso ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2016 yn cael ei ddrafftio, bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno a'i fod yn cael ei wneud o leiaf 12 mis cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

29. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i darbwyllo'n llwyr bod angen Gorchymyn newydd yn y Cyfrin Gyngor cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad y Pwyllgor yn yr haf, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd yn nodi rhai anawsterau posibl o ran diwallu union amserlen arfaethedig y Pwyllgor, ac yn nodi ffordd bosibl ymlaen (gan gynnwys gwneud darpariaeth i ymgynghori yn unol ag argymhelliad 14); mae'r llythyr hwn i'w weld yn Atodiad 1. Cytunodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, fod cynnig y Prif Weinidog yn dderbyniol, a fydd yn arwain at gyflwyno Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor ym mis Mehefin neu ym mis Gorffennaf.

***Argymhelliad 16.*** *rydym yn argymell bod y gorchymyn anghymhwyso ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2016 yn cael ei wneud yn ddwyieithog yn y Cyfrin Gyngor.*

**Ymateb: Derbyn. Byddwn yn trafod hyn gyda Swyddfa'r Cyfrin Gyngor yn ôl y gofyn.**

***Argymhelliad 17.*** *rydym yn argymell bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn adolygu ei reolau'n ymwneud â gweithgareddau gwleidyddol i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn glir am y rheolau mewnol sy'n berthnasol os byddant yn awyddus i gael eu henwebu i fod yn ymgeisydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u bod*

*yn llwyddiannus wedyn. Dylai'r cyfryw reolau ystyried unrhyw ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o'r adroddiad hwn, a dylent gael eu hadolygu o leiaf ddwy flynedd cyn yr etholiadau cyffredinol ar gyfer y Cynulliad a fydd yn cael eu cynnal ar ôl 2016.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

30. Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd yn llwyr â'n ffordd gyffredinol o ymdrin â staff cyrff cyhoeddus, sef (ac eithrio staff Comisiwn y Cynulliad o bosibl) y dylent fod yn gymwys i sefyll mewn etholiad. Byddwn yn ystyried ymhellach sut dylid cyfleu'r argymhelliad hwn i gyrff cyhoeddus Cymru a sut dylent ei roi ar waith.

***Argymhelliad 18.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r telerau penodi a'r arweiniad y mae'n ei roi i benodeion, cyrff a noddir a chyrff perthnasol eraill am weithgarwch gwleidyddol.*

**Ymateb: Derbyn.**

***Argymhelliad 19.*** *rydym yn argymell bod y Comisiwn Etholiadol yn adolygu ei arweiniad presennol ar anghymwyso personau rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn rhoi sylw i'r holl ddeddfwriaeth a materion polisi perthnasol.*

**Ymateb:**

31. **Mater i'r Comisiwn Etholiadol yw hwn,** ond fel y nodir ym mharagraff 12 uchod, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu llunio rhestr gynhwysfawr ac anstatudol o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso rydym yn ymwybodol ohonynt, o ba bynnag ffynhonnell, ac yn ei darparu i'r pleidiau a darpar ymgeiswyr; a byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol ar hyn yn ôl y gofyn.

***Argymhelliad 20.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o ymarferoldeb dal mandad deuol fel Aelod Cynulliad a chynghorydd awdurdod lleol (gan ystyried hefyd: y potensial am wrthdaro rhwng buddiannau, yr ymrwymiadau amser a materion yn ymwneud â barn y cyhoedd), a gwneud argymhellion.*

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor.**

32. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod hwn yn fater sy'n haeddu bod yn destun ystyriaeth ofalus a thrafodaeth gyhoeddus, ond nid ydym wedi'n darbwyllo bod angen comisiynu adolygiad annibynnol o'r mater i hwyluso hynny. Ddechrau 2015, byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn mewn perthynas â'n rhaglen diwygio llywodraeth leol yn gwahodd safbwyntiau ar ystod eang o faterion perthnasol, a byddai'n briodol cynnwys y mater hwn i geisio safbwyntiau yn ei gylch. Yna gellid cynnwys unrhyw ddarpariaeth statudol ddilynol yn y Bil Llywodraeth Leol i roi uno awdurdodau lleol ar waith; rydym yn bwriadu cyflwyno hyn yn fuan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016.

***Argymhelliad 21.*** *rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwahardd yr arfer o sefyll fel Aelod Cynulliad ac fel Aelod o Dŷ'r Arglwyddi, ond na ddylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i unrhyw un sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel aelod o'r ddau sefydliad.*

**Ymateb:**

33. **Mater i Lywodraeth y DU yw hwn.** Fodd bynnag, nid yw'n eglur i Lywodraeth Cymru pam bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad hwn. Ni ymddengys bod aelodaeth o Dŷ'r Arglwyddi yn achosi gwrthdaro buddiannau posibl â bod yn Aelod Cynulliad, naill ai o ran gwrthdaro rhwng ymrwymiad amser (gwirfoddol gan fwyaf yw presenoldeb yn Nhŷ'r Arglwyddi) nac o ran cystadleuaeth rhwng buddiannau. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai materion yn wahanol pe bai aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn cael eu hethol, felly cymerir y byddai angen darpariaethau cyfatebol â'r rheini sydd ym Mil Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â bod yn aelod o'r Cynulliad a Thŷ'r Cyffredin ar yr un pryd.

<u>Casgliad</u>

34. Hoffai Llywodraeth Cymru bwysleisio eto ei gwerthfawrogiad i'r Pwyllgor am ei waith, ac mae'n edrych ymlaen at glywed barn yr Aelodau ar y materion pwysig hyn.

Hydref 2014